**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

29 Medi 2023

Annwyl Julie

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â sylwadau a wnaethoch yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Medi 2023 yn ystod y ddadl ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ynni. Gwnaethoch ddweud:

> *"Nawr, gallem fod wedi rhoi memorandwm cydsyniad deddfwriaethol i mewn ddechrau mis Medi, ond bryd hynny roeddem yn cael gohebiaeth gyda'ch pwyllgor chi ac eraill ynglŷn â'r ffaith ein bod yn parhau i roi memoranda lluosog ar yr un Bil. Felly, rwy'n teimlo ein bod ni mewn sefyllfa amhosibl yn y fan yna. Felly, wrth geisio cydymffurfio â 'peidiwch â rhoi 14 o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar un Bil', rydyn ni bellach wedi syrthio i 'wnaethon ni ddim rhoi un yn ddigon cyflym' ar y Bil drafft. Felly, dwylo i fyny, wnaethon ni ddim. Ond rwy'n credu, er tegwch, ein bod mewn gwirionedd yn ceisio rhoi LCM a oedd yn crynhoi'r Bil gan ein bod yn credu y byddai'n cael ei gyflwyno yn hytrach na set ddilyniannol o femoranda."*

Nid ydym o'r farn bod eich sylwadau'n cyflwyno darlun cywir o'r safbwynt y mae'r Pwyllgor wedi'i fabwysiadu mewn perthynas â chraffu ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau'r DU. Ar ben hynny, mae dau fater yn aneglur i ni: yn gyntaf, pam y bu oedi o 49 wythnos o ran y memorandwm cyntaf pan nodoch y gallech fod wedi gosod un ym mis Medi 2022 ac yn ail, pa ohebiaeth rydych chi'n cyfeirio ati pan fyddwch chi'n dweud "roeddem yn cael gohebiaeth gyda'ch pwyllgor...".

Yn wir, yn ein adroddiad ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ynni, gwnaethom nodi'r canlynol:

> *"Hoffem hefyd fod wedi ystyried sylwadau'r Gweinidog ar osod sawl memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar yr un Bil. Rydym wedi dweud o'r blaen, o safbwynt y Pwyllgor hwn, sy'n edrych ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol ar holl filiau'r DU, fod oedi cyn gosod memoranda o'r fath yn lleihau'r amser sydd gennym i graffu ar ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â Bil ac i'w ddeall."*

Wrth wneud y pwynt hwn, gwnaethom gyfeirio at ein hadroddiad yn 2021 ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), a oedd yn cynnwys sylwadau ar oedi cyn gosod y Memorandwm ym mharagraffau 26 i 35. Yn benodol, mae paragraff 30 o'r adroddiad hwnnw yn nodi:

> *"Rydym eisoes wedi ymdrin â sawl Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Biliau unigol Llywodraeth y DU ac, ar ôl addasu'n llwyddiannus i'r heriau a ddaw yn sgil hyn, nid ydym o'r farn bod amryfusedd na diffyg cydlyniaeth i'r dull hwn."*

Tynnodd adroddiad 2021 sylw hefyd at ein llythyr at y Pwyllgor Busnes ym mis Hydref 2021 a oedd, ymhlith pethau eraill, yn amlygu ein pryderon ynghylch yr effaith y gall oedi wrth osod memoranda cydsyniad deddfwriaethol ei chael ar graffu ar Lywodraeth Cymru.

Byddem hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gosod memoranda o fewn y cyfnod o bythefnos neu mor agos at y cyfnod o bythefnos a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r heriau y mae'r Senedd yn eu hwynebu o ran cael amser i graffu arnynt yn effeithiol. Dyna pam mae'r Rheolau Sefydlog yn rhagnodi'r targed o bythefnos fel bod unrhyw heriau o'r fath yn cael eu lliniaru a bod gan y Senedd amser i asesu, o bosibl gymryd tystiolaeth a chael dadl fwy gwybodus. Drwy ohirio gosod memoranda yn ffurfiol, mae rôl y Senedd yn cael ei thanseilio yn y broses gydsynio.

Ar ben hynny, ni fyddai'n synhwyrol ystyried memorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n trafod Bil a'r holl welliannau tuag at ddiwedd proses seneddol y DU. Nid yn unig y byddai y tu allan i ofynion y Rheolau Sefydlog, ni fyddai bron dim amser am unrhyw waith craffu manwl gan y Senedd, na'i bwyllgorau, ar y gyfraith mewn meysydd datganoledig y byddai'r Senedd ei hun yn disgwyl ei wneud fel arfer. Byddai dull o'r fath i bob pwrpas yn golygu bod ffordd sydd eisoes yn ddiffygiol o wneud cyfraith mewn meysydd datganoledig yn cael ei israddio i statws ymarfer diangen i raddau helaeth, ac ni fyddai hyn yn dderbyniol.

Rydym wedi gwneud sylwadau ar nifer y memoranda cydsyniad deddfwriaethol sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhai o Filiau'r DU ond rydym wedi gwneud hynny dim ond i dynnu

sylw at annigonolrwydd dwys cael Senedd wahanol yn deddfu ar gyfer Cymru ar faterion datganoledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd